| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad:** | **6 MAWRTH 2025** |
| **Pwnc:** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2025/26** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 762601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2025, ystyriodd y Pwyllgor Gwaith adroddiad y gyllideb derfynol, a oedd yn cynnwys ffigyrau a ddiweddarwyd yn seiliedig ar Setliad terfynol 2025/26 ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, canlyniadau'r ymgynghoriad ar y gyllideb, asesiad y Swyddog Adran 151 o gadernid yr amcangyfrif o'r gyllideb refeniw net derfynol, adolygiad o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a phenodol a'r cynllun ariannol tymor canolig a ddiweddarwyd, sydd yn amcangyfrif sefyllfa'r gyllideb yn 2026/27 a 2027/28. Mae'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad A.

Roedd Setliad y terfynol i Lywodraeth Leol yng Nghymru yn cynnwys llawr a oedd yn cynyddu'r cynnydd sylfaenol i awdurdodau lleol i 3.8%. Gan fod y setliad dros dro ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys cynnydd o 3.6%, mae setliad terfynol Ynys Môn wedi codi i £135.881m, sef £277k yn uwch na'r ffigwr gwreiddiol. Roedd y setliad terfynol hefyd yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru'n (LlC) darparu grant pellach o £30m ar gyfer Cymru gyfan, er mwyn cynorthwyo i gwrdd â chostau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ofalu am gleientiaid oedrannus yn eu cartrefi neu mewn gofal preswyl neu nyrsio, yn hytrach na bod cleientiaid yn gorfod mynd i'r ysbyty. Bydd y £30m o arian ychwanegol yma yn golygu fod y Cyngor yn derbyn tua £750k o gyllid grant ychwanegol.

Ar ôl ystyried y wybodaeth uchod, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnig y newidiadau canlynol i'r gyllideb arfaethedig gychwynnol:-

- Peidio â gweithredu'r cynnig i ddechrau codi tâl gwasanaeth ar gyfer unedau diwydiannol a busnes yn 2025/26. Mae hyn yn gynnydd o £32,500 yn y gyllideb refeniw net, ond caiff y cynnydd ei wrthbwyso gan ostyngiad o'r un swm yn y gyllideb wrth gefn ar gyfer y flwyddyn.
- Peidio â gweithredu'r cynnig i ostwng nifer cyfunol y diwrnodau y mae canolfannau ailgylchu'r Cyngor ar agor o 10 diwrnod i 8 diwrnod yn 2025/26. Mae hyn yn gynnydd o £60k yn y gyllideb refeniw, ac mae'n cael ei gyllido o'r cynnydd yn y cyllid a dderbyniwyd gan LlC.
- Bod £217k yn cael ei ddyrannu er mwyn cwrdd â chostau adnewyddu offer TG mewn ysgolion yn y dyfodol, sef offer a brynwyd yn wreiddiol gyda grant gan LlC. Mae'n amod o'r grant bod y Cyngor yn adnewyddu'r offer pan ddaw'r amser i'w hadnewyddu.
- Bod y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn cael ei ostwng 1%, i 8.5%. Mae hyn yn ostyngiad o £528k yn yr incwm a gynhyrchir trwy'r Dreth Gyngor, ond mae'n cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £68k yn y gyllideb ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, oherwydd bod angen llai o gynnydd ar gyfer chwyddiant. Bydd y diffyg net o £460k yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor, ond bydd y balansau hyn yn cael eu hail-lenwi gyda'r cyllid grant ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ar ôl ei dderbyn.

Mae effaith net y newidiadau yn y gyllideb a ddangosir uchod fel a ganlyn:-

| Y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2025/26 | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Y Gyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol** | | **195.234** |
| | | |
| **Cynigion Arbedion fydd ddim yn cael eu gweithredu** | | |
| Tâl Gwasanaeth ar gyfer Unedau Diwydiannol a Busnes | 0.033 | |
| Lleihau nifer y Diwrnodau y mae'r Canolfannau Ailgylchu ar agor | 0.060 | |
| | | 0.093 |
| | | |
| **Addasiadau Eraill i'r Gyllideb** | | |
| Gostwng Cyllideb Wrth Gefn | (0.033) | |
| Gostwng Cyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i adlewyrchu cynnydd is yn y Dreth Gyngor | (0.068) | |
| Cronfa ychwanegol i brynu offer TG mewn ysgolion | 0.217 | |
| | | 0.116 |
| | | |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2025/26** | | **195.443** |
| | | |
| Cyllidir Gan:- | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 110.784 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | 25.097 | |
| Balansau Cyffredinol y Cyngor | 2.460 | |
| Y Dreth Gyngor | 57.102 | |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **195.443** |

Mae dadansoddiad o'r gyllideb fesul Gwasanaeth ynghlwm fel Atodiad B.

Bydd mabwysiadu'r gyllideb arfaethedig yn effeithio ar sefyllfa cyllido'r Cyngor yn 2026/27 a 2027/28. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ar gyfer y blynyddoedd ariannol hynny. Cyflwynir cynllun ariannol tymor canolig wedi'i adolygu'n llawn ar gyfer y blynyddoedd ariannol rhwng 2026/27 a 2028/29 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried ym mis Medi 2025.

| Cynllun Ariannol Tymor Canolig | 2026/27 £'m | 2027/28 £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 195.443 | 201.455 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 6.012 | 5.347 |
| Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 0.000 | (2.899) |
| **Cyllideb Ddsymyd Ddiwygiedig** | **201.455** | **203.903** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (gan dybio cynnydd o 2.0% yn 2026/27 a 2027/28) | 138.599 | 141.371 |
| Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2026/27 a 4% yn 2027/28) | 59.957 | 62.355 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **198.556** | **203.726** |
| | | |
| **Gofynion Cyllido Ychwanegol / Arbedion Gofynnol** | **2.899** | **0.177** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon | 2.0% | 3.0% |
| Dyfarniadau Cyflog - Athrawon | 2.0% | 3.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 2.0% | 2.0% |

**Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cyngor ystyried y gyllideb refeniw arfaethedig derfynol ar gyfer 2025/26 a argymhellir gan y Pwyllgor Gwaith:-**

- **Gosod cyllideb refeniw net o £195.443m ar gyfer 2025/26.**
- **Cynnydd o 8.5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D (7.85% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.65% i gwrdd â chynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân). Golyga hyn bod y gost ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,705.95, sef cynnydd o £133.65 (£2.57 yr wythnos).**
- **Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag yn aros ar 100%.**
- **Mabwysiadu'r penderfyniad drafft ar osod y Dreth Gyngor, fel a nodir ar Raglen cyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2025.**

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig. Barn y Pwyllgor Gwaith yw bod y gyllideb arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng buddsoddi yng ngwasanaethau'r Cyngor a chynyddu'r Dreth Gyngor, yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn i'r Cyngor ei ystyried.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2025/26 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025.

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

## Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?** | Wrth lunio y gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?** | Mae manylion unrhyw gynigion i wneud arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| 3 | **A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy** | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar LlC am y setliad ariannol gorau posibl. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorwyd ar y gyllideb arfaethedig ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y gyllideb arfaethedig derfynol.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau ar y gyllideb arfaethedig yn y fforymau a ganlyn hefyd:-<br><br>Fforwm Cyllid Ysgolion;<br>Fforwm Pobl Hŷn;<br>Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| 6 | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Bydd y gyllideb yn golygu bod trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Bydd y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ac ni ddylai'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol weld unrhyw / fawr ddim effaith ariannol. |
| 7 | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r gyllideb arfaethedig derfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac, fel y cyfryw, mae sylwadau'r Swyddog wedi eu hystyried. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| 5 | **Eiddo** | - |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | - |
| 7 | **Sgriwtini** | Mae'r Pwyllgor Sgriwtini wedi ystyried y gyllideb arfaethedig derfynol yn ei gyfarfod 19 Chwefror 2025. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi'r gyllideb arfaethedig. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses o osod y gyllideb. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Gweler Adran 2 yn yr adroddiad. |

**F - Atodiadau**

- Atodiad A - Adroddiad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2025/26 - Pwyllgor Gwaith 27 Chwefror 2025
- Atodiad B – Crynodeb o Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2025/26 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2025/26 – Pwyllgor Gwaith – 21 Ionawr 2025
- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2025/26 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 15 Ionawr 2025
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 i 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 24 Medi 2024

## Y GYLLIDEB REFENIW ARFAETHEDIG DERFYNOL AR GYFER 2025/26 FESUL GWASANAETH

| | **Cyllideb Arfaethedig Derfynol 2025/26 £'m** |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 71.135 |
| Gwasanaethau Oedolion | 43.048 |
| Gwasanaethau Plant | 17.556 |
| Gwasanaethau Tai | 2.036 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 20.757 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 6.077 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 8.109 |
| Adnoddau | 4.225 |
| Busnes y Cyngor | 2.213 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.823 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **175.979** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2.238 |
| Ailgodi tâl ar y CRT | (0.840) |
| Cefnogaeth ar gyfer Cynlluniau Cymorth Lleol i Brynu Tai | 1.000 |
| Ardollau | 5.277 |
| Cyllido Cyfalaf | 4.637 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 0.110 |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol | 0.106 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 7.349 |
| Grant Yswiriant Gwladol | (2.000) |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Ddyrannwyd** | **193.856** |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1.587 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2025/26** | **195.443** |
| **Cyllidir Gan:-** | |
| Grant Cynnal Refeniw | 110.784 |
| Trethi Annomestig | 25.097 |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | 57.102 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | 2.460 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **195.443** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 CHWEFROR 2025** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2025/26** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

## 1. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB REFENIW 2025/26

### 1.1 Pwrpas

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2025/26. Gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol wedyn i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025. Dyma'r materion y mae angen cytuno arnynt:-

- Cyllideb Refeniw y Cyngor ac, yn sgil hynny, y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a ddiweddarwyd;
- Defnyddio unrhyw gyllid untro i gefnogi'r gyllideb.

### 1.2 Crynodeb

Dengys y papur hwn gynigion manwl y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 y mae angen eu hystyried a chytuno'n derfynol arnynt, a'r effaith ddilynol ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Materion i'r Cyngor gytuno arnynt yw'r rhain, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy'n gosod cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor mewn blynyddoedd i ddod. Serch hynny, dylid nodi y caiff adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac, efallai, y bydd gwybodaeth pellach am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy eglur bryd hynny.

## 2. ARGYMHELLION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2025/26

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

- I benderfynu sut i ddyrannu'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd a chytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £9.75m o falansau cyffredinol;
- Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1;
- I osod ac argymell y gyllideb net derfynol i'r Cyngor Sir ac yn sgil hynny, cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor i'r Cyngor llawn, gan nodi y caiff cynnig ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2025;

- Awdurdodi’r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno’r cynigion terfynol i’r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio cyllid o’r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Gofyn i’r Cyngor awdurdodi’r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o’r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo’n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i’r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o’r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k oni bai bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ei ganiatâd ymlaen llaw;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag yn cael eu cynnal ar 100%.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol. Mae’r gyllideb arfaerthedig derfynol yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C** - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae’n rhaid i’r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn i’r Cyngor ei ystyried.

**CH** – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2025/26 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025.

**D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**Dd** – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys | Wrth lunio’r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae manylion unrhyw gynigion am arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, dywedwch gyda phwy: | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd ar y gyllideb arfaethedig ac mae'r manylion i’w gweld yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y gyllideb arfaethedig derfynol.<br>Cynhaliwyd trafodaethau ar gynigion y gyllideb arfaethedig yn y fforymau a ganlyn hefyd:-<br>Fforwm Cyllid Ysgolion;<br>Fforwm Pobl Hŷn<br>Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Yn sgil y gyllideb, bydd trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Bydd y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ac ni ddylai'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol weld unrhyw / fawr ddim effaith ariannol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r gyllideb arfaethedig derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA ac, fel y cyfryw, rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau'r Swyddog. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| **5** | **Eiddo** | - |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | - |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 19 Chwefror 2025. Cyflwynir adroddiad llafar ar ganlyniadau'r cyfarfod hwn i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses o osod y gyllideb. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Gweler Adran 2 yn yr adroddiad. |

**F - Atodiadau**

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Gyllideb Arfaethedig
- Atodiad 2 – Crynodeb o Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2025/26 fesul Gwasanaeth
- Atodiad 3 – Adroddiad Manwl ar Ymgynghoriad y Gyllideb

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Cychwynnol Arfaethedig 2025/26 – Pwyllgor Gwaith – 21 Ionawr 2025
- Cyllideb Cychwynnol Arfaethedig 2025/26 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 15 Ionawr 2025
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 i 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 24 Medi 2024

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26 a dyma un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n sicrhau fod cyllid y Cyngor yn cael ei neilltuo i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.

**1.2.** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ganfod arbedion refeniw yn cael eu llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i 2027/28**

| | 2025/26<br>£'m | 2026/27<br>£'m | 2027/28<br>£'m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 184.164 | 196.005 | 189.634 |
| Pwysau Cyllidebol a Chwyddiant | 11.841 | 6.012 | 5.347 |
| Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 0.000 | (12.383) | (0.697) |
| **Cyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig** | **196.005** | **189.634** | **194.284** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (gan ragdybio cynnydd o 1.0% yn 2025/26 a chynnydd o 2.0% yn 2026/27 a 2027/28) | 128.862 | 131.439 | 134.016 |
| Y Dreth Gyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2025/26, 2026/27 a 2027/28) | 54.760 | 57.498 | 60.373 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **183.622** | **188.937** | **194.389** |
| | | | |
| **Gofynion Cyllido Ychwanegol /<br>Y Gofyn am Arbedion** | **12.383** | **0.697** | **(0.105)** |
| | | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | | |
| Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon | 4.5% | 2.0% | 3.0% |
| Dyfarniadau Cyflog – Athrawon (o Medi 2025) | 2.0% | 2.0% | 3.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 1.9% | 2.0% | 2.0% |

**1.3.** Roedd y ffigyrau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn seiliedig ar ragdybiaethau a gwybodaeth a oedd ar gael pan luniwyd y CATC. Yn hytrach na darparu asesiad manwl gywir o'r gofyn cyllidebol, pwrpas y CATC yw darparu asesiad lefel uchel o'r bwlch posib yn y gyllideb.

**1.4.** Cwblhawyd nifer o elfennau ar ôl cyhoeddi'r CATC, ac mae hynny wedi caniatáu mwy o sicrwydd wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymyd. Nid yw chwyddiant yn cael gymaint o effaith gan ei fod wedi gostwng, ac mae'n haws amcangyfrif lefel chwyddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yr un risg sylweddol ar gyfer 2025/26 yw effaith newidiadau yn yr yswiriant gwladol a lefel y cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

**1.5.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd yn y cyllid ar gyfer Cymru ddiwedd mis Hydref 2024, gan olygu bod setliad dros dro Ynys Môn wedi cynyddu, ac roedd y setliad o 3.6% yn uwch na'r 1% yr oedd y CATC yn cynllunio ar ei gyfer. Mae hyn yn newid sefyllfa ariannol y Cyngor, nid yn unig yn 2025/26 ond mewn blynyddoedd i ddod hefyd.

**1.6.** Er hynny, ac er gwaetha'r newidiadau hyn a bod y bwlch cyllido'n is na'r rhagolygon yn y CATC, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol yn 2025/26 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol, ac mae disgwyl i gostau barhau i godi oherwydd chwyddiant a chynnydd yn y galw, ond nid yw'r cyllid gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn debygol o fod yn ddigon i gwrdd â chynnydd yn yr holl gostau.

## 2. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL

**2.1.** Yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2025, trafododd y Pwyllgor Gwaith ei gyllideb arfaethedig cychwynnol a'r setliad dros dro a gyhoeddwyd gan LIC ar 11 Rhagfyr 2024.

**2.2.** Roedd y setliad dros dro yn uwch na'r rhagolygon yn y CATC, gyda'r Cyngor yn derbyn £135.605m, sef cynnydd o £8.116m (6.37%) mewn termau ariannol ond, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid i sylfaen y dreth gyngor, roedd y cynnydd wedi'i addasu yn £4.716m (3.60%).

**2.3.** Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £195.234m ar gyfer 2025/26 ac, ar sail CAC dros dro o £135.605m, byddai angen cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor, yn ogystal â defnyddio £2.000m o falansau cyffredinol y Cyngor, i gydbwyso'r gyllideb.

**2.4.** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod angen gwarchod gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn y galw am Wasanaethau Plant, yn ogystal â sicrhau fod ysgolion a Gwasanaethau Oedolion yn derbyn digon o gyllid i gwrdd â chynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant, gan gynnwys costau ychwanegol yn sgil newid yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud ag Yswiriant Gwladol.

**2.5.** Er nad yw'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) wedi'i fwriadu fel mesur o lefel ddisgwyliedig cyllideb refeniw net y Cyngor, mae'n rhoi rhyw syniad p'un a yw lefel cyllideb y Cyngor yn rhesymol i'r Cyngor. Mae'r AGS ar gyfer 2025/26 yn £189.880m ac mae'r gyllideb arfaethedig, felly, yn 102.8% o'r AGS.

## 3. PWYLLGOR SGRIWTINI

**3.1.** Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliad dros dro a'r setliad terfynol, bu'n rhaid cwtogi amserlen y gyllideb ar gyfer 2025/26 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid hefyd archwilio cynigion buddsoddi gwasanaethau yn fanwl yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr 2025, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Ionawr 2025. Yn y cyfarfod hwn, penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cyllideb arfaethedig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith.

**3.2.** Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2025, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y gyllideb arfaethedig derfynol ymhellach, a chyflwynir adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

## 4. Y BROSES YMGYNGHORI

**4.1.** Er bod yr amserlen rhwng cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r dyddiad terfynol ar gyfer gosod y Dreth Gyngor yn un fer, cynhaliwyd ymgynghoriad byr, a gofynnwyd i breswylwyr ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â'u blaenoriaethau gwariant a chyllido. Oherwydd yr amserlen fer, cyfyngwyd ar y math a'r nifer o gwestiynau a ofynnwyd er mwyn cael digon o amser i ddadansoddi'r ymatebion. Derbyniwyd 870 o ymatebion ar-lein a 57 o ymatebion pellach ysgrifenedig ar bapur. Mae hyn yn golygu bod tua 3% o drethdalwyr wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

**4.2.** Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi o'r ymgynghoriad:-

- Y pum gwasanaeth oedd yn cael eu hystyried y rhai mwyaf pwysig i'r ymatebwyr oedd casglu gwastraff ac ailgylchu 70%, ffyrdd ac isadeiledd 68%, addysg ac ysgolion 58%, cefnogi plant, teuluoedd ac oedolion bregus 47% a gwasanaethau tân ac achub 42%.

- Y pum gwasanaeth y rhoddwyd y lleiaf o flaenoriaeth iddynt oedd archifau ac amgueddfeydd 4%, cyngor ynglŷn â thai a chymorth lles 9%, llyfrgelloedd 11%, gwasanaethau ieuenctid 12% ac atal digartrefedd 13%.
- Roedd 52% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r Datganiad. Mae hyn yn cymharu â 61% yn yr arolwg a gynhaliwyd y llynedd -

  **"Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer y gyllideb yn ceisio diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adennill costau gwasanaeth drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, parhau i fuddsoddi, a, lle bo'n bosib, moderneiddio a thrawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau"**
- Roedd 59% o ymatebwyr yn cytuno bod angen parhau i fuddsoddi yn y cyllidebau gofal cymdeithasol.
- Roedd 20% o ymatebwyr yn fodlon talu mwy trwy ffioedd a thaliadau er mwyn amddiffyn gwasanaethau, ond ni fyddai 64% yn fodlon talu mwy. Mae hyn yn cymharu ag arolwg y llynedd lle'r oedd 49% yn fodlon talu mwy.
- Roedd 54% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r bwriad i ddefnyddio cyllid ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a thai gwag er mwyn cynorthwyo i gyllido gwasanaethau yn 2025/26. Mae hyn yn cymharu â 79% yn yr arolwg a gynhaliwyd yn 2024.
- Dim ond 10% oedd yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig o 9.5% yn y Dreth Gyngor, ac nid oedd 36% yn dymuno gweld unrhyw gynnydd, tra bod 93% yn cefnogi cynnydd o 5% neu lai.
- Er mwyn cydbwyso'r gyllideb, roedd 36% yn dymuno i'r cyfan o'r diffyg yn y gyllideb gael ei gyllido o'r arian wrth gefn, ac roedd 84% yn dymuno i o leiaf 50% o'r diffyg gael ei gyllido o'r arian wrth gefn.
- O ran y gwasanaethau yr oedd ymatebwyr yn fodlon iddynt gael eu cwtogi, roedd y gwasanaethau sydd yn fwy dewisol eu natur (Archifau, Amgueddfeydd, Twristiaeth a Gwasanaeth Llyfrgelloedd) ar frig y rhestr, tra bod ymatebwyr yn dymuno i wasanaethau mwy hanfodol (gofal cymdeithasol, ysgolion, tân, ffyrdd a chasglu gwastraff) gael eu gwarchod. Mae'r ymateb hwn yn debyg iawn i'r patrwm a welwyd yn yr arolwg yn 2024.

## 5. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

**5.1.** Nid oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi y gyllideb arfaethedig gychwynnol sy'n golygu bod rhaid addasu'r gyllideb wariant net, ac mae'n parhau ar £195.234m.

**5.2.** Mae'r setliad terfynol yn cynnwys llawr o 3.8%. 3.6% oedd y setliad dros dro ar gyfer Ynys Môn, felly, mae cynnwys llawr yn y setliad yn golygu bod Ynys Môn ar ei ennill. Mae'r Cyngor yn derbyn £277k yn ychwanegol oherwydd y llawr, gan olygu bod cyfanswm gwerth y CAC yn codi i £135.881m.

**5.3.** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried gwahanol opsiynau er mwyn sicrhau bod y cyllid diwygiedig yn cyd-fynd â'r gyllideb refeniw net:-

- Gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 9.00%. Mae hyn yn defnyddio'r cyfan o'r cyllid ychwanegol o gymharu â'r gyllideb refeniw net;
- £0.277m o ostyngiad yn yr arbedion cyllidebol sy'n cael eu cynnig. Byddai hyn yn arwain at gynyddu'r gyllideb refeniw net i £195.511m, sef yr un lefel â'r cyllid diwygiedig.
- Gostwng swm yr arian wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb o £2.000m i £1.733m;
- Dyrannu cyllid ychwanegol i faes sydd ddim yn cael ei gyfarch yn y gyllideb;
- Cyfuniad o'r 4 opsiwn a nodir uchod.

**5.4.** Er bod y Pwyllgor Gwaith yn deall y pwysau sy'n wynebu teuluoedd oherwydd yr argyfwng costau byw, mae'n rhaid iddo gydnabod hefyd bod rhaid iddo ystyried effaith y cynnydd ar gyllideb 2026/27, yn ogystal â chydbwyso cyllideb 2025/26. Byddai gosod y Dreth Gyngor yn is yn effeithio ar y man cychwyn yn 2026/27, ac os yw lefel y Dreth Gyngor yn rhy isel, bydd yn cynyddu'r diffyg yn y gyllideb yn 2026/27 ac yn gwanhau sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Byddai bob gostyngiad o 0.5% yng nghynnydd yn y Dreth Gyngor yn golygu bod y cynnydd blynyddol ar eiddo Band D £8.19 yn is, neu £0.16 yr wythnos.

**5.5.** Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion arbedion yn rhai y gellir eu cyflawni ac aseswyd yr effaith ar y Cyngor cyn cytuno ar y cynigion. Y cynigion arbedion sy'n cael yr effaith fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus a'r economi leol yw :-

- Rhesymoli'r ddarpariaeth gwasanaethau dydd i gleientiaid sydd ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu - £177,000;
- Dechrau codi tâl gwasanaeth, yn unol â'r cytundebau prydles, ar unedau diwydiannol a busnes - £32,500;
- Agor y canolfannau ailgylchu am lai o ddyddiau, sef am 8 diwrnod yr wythnos yn hytrach na 10 - £60,000.

Efallai y bydd y Pwyllgor Gwaith yn dymuno ailedrych ar y cynigion hyn.

**5.6.** Bydd arian wrth gefn sylweddol yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso cyllideb 2025/26 ac mae cyfanswm o £10.2m wedi cael ei ddefnyddio i gydbwyso'r gyllideb yn ystod y 3 blynedd ariannol diwethaf. Yn seiliedig ar y rhagolygon presennol, ni fydd yn bosib defnyddio arian wrth gefn eto yn 2026/27 i gyfrannu at y cyllid cyffredinol. Ni fyddai defnyddio'r cyllid ychwanegol a gynhyrchwyd gan y llawr yn y setliad i ostwng y cyfraniad o'r arian wrth gefn yn 2025/26 yn gwneud fawr o wahaniaeth i lefel yr arian wrth gefn yn y dyfodol. Felly, ni fyddai'n bosib defnyddio arian wrth gefn i gyfrannu at y cyllid yn 2026/27. Dim ond gohirio'r angen i ostwng cyllideb refeniw net y Cyngor y mae defnyddio arian wrth gefn yn ei wneud, ac nid yw defnyddio arian wrth gefn yn ateb parhaol i'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

**5.7.** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried cyllideb gyfalaf y Cyngor hefyd, ac un maes y bydd rhaid buddsoddi ynddo yn y dyfodol yw adnewyddu offer TG mewn ysgolion, gan gynnwys dyfeisiau sy'n cael eu darparu i ddisgyblion. Byddai neilltuo'r £277k ychwanegol ar gyfer y gyllideb gyfalaf yn cynorthwyo i gyllido rhywfaint o'r bwlch cyllido, er y nodir y bydd angen mwy o gyllid eto gan y bydd angen adnewyddu llawer iawn o offer yn 2027/28.

- Mater i'r Pwyllgor Gwaith yw penderfynu sut i ddefnyddio'r £277k ychwanegol sydd wedi deillio o'r setliad terfynol.

## 6. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**6.1.** O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol arfaethedig.

**6.2.** Mae amcangyfrifon yn y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'r rhagdybiaethau'n cynnwys elfen o risg. Gellir lliniaru effaith y risg hwn drwy lunio cynlluniau a chyllidebau wrth gefn a chreu cronfeydd wrth gefn ariannol.

**6.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon yn y gyllideb yn cyfeirio'n unig at p'un a ydynt wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau yn seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai bod elfen o risg ynghylch a fydd cynlluniau'n cael eu cyflawni neu dargedau'n cael eu cyrraedd. Mae gwahanol risgiau allai effeithio ar y gyllideb yn cael eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant Tâl** – Mae risg chwyddiant yn isel pan fydd lefelau chwyddiant yn isel a'r newid cyffredinol yn y raddfa chwyddiant yn fychan, a dyna fu'r achos am nifer o flynyddoedd. Nid oes cynnig tâl wedi cael ei wneud ar gyfer staff NJC yn 2025/26, ac nid yw LIC wedi dweud eto beth fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer Athrawon o Fedi 2025, felly, mae cryn ansicrwydd o hyd ynglŷn â chwyddiant tâl a, chan fod y bil cyflogau yn fwy na £100m, gallai camgymeriad o 1% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant tâl arwain at ddiffyg cyllid o £1m yn 2025/26. Mae'r risg yn cael ei liniaru gan fod y Cyngor hefo arian wrth gefn clustnodedig i gyllido unrhyw bwysau oherwydd chwyddiant. Byddai'r cyllid yn cael ei ryddhau i gyllido unrhyw anghenion ychwanegol yn y gyllideb gyflogau, a byddai'r gyllideb hirdymor wedyn yn cael ei chywiro yn 2026/27.

- **Risg Chwyddiant Prisiau –** Mae'r mesur chwyddiant cyffredinol (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)) wedi gostwng yn ôl i lefelau mwy arferol o thua 2%, ac mae disgwyl iddo godi eto tuag at 4% yn ystod 2025, cyn dechrau disgyn yn ôl i 2% yn 2026. Er hynny, gallai perfformiad yr economi effeithio ar y rhagolygon hyn yn ystod y misoedd nesaf, a ph'un a welir cynnydd pellach mewn trethi neu dorri gwariant cyhoeddus, ac a fydd prisiau ynni byd-eang yn codi. Gallai rhagolygon y bydd Banc Lloegr yn torri'r gyfradd sylfaenol hefyd arwain at greu pwysau chwyddiant.

  Mae'r CPI yn fesur cyffredinol o chwyddiant, a gallai meysydd gwariant penodol brofi chwyddiant uwch neu is na'r CPI. Beth bynnag fydd yn digwydd i chwyddiant, nid oes disgwyl iddo godi'n sylweddol a ni ddylai amrywio mwy nag 1% o gymharu â'r ffigwr sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Oherwydd hyn, dim ond bychan fydd yr effaith ariannol yn 2025/26 a gellir ei gyllido o'r Gronfa wrth Gefn Chwyddiant sydd gan y Cyngor.

- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn unigol yn sgil y llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn nodi bod rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad yn y lle cyntaf, ac nid yw enillion ar fuddsoddiadau'n gymaint o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly, yn ddibynnol ar enillion uchel ar fuddsoddiadau. Mae cyfraddau llog wedi aros yn uchel, ac mae'r Cyngor yn derbyn enillion o dros 5% ar fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog y mae'r Cyngor yn ei dderbyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond mae risg na fydd y gyllideb yn cael ei gwireddu os yw cyfraddau llog yn dechrau gostwng yn gyflym, neu os yw'r cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi'n is na'r disgwyl. Mae'r mwyafrif o'r llog sy'n cael ei dalu gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfradd sefydlog ac ni fyddant yn newid os bydd cyfraddau llog yn codi. Ystyrir, felly, bod y risg cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y gorffennol, mae hwn yn risg cyd adferol ar gyfer risg chwyddiant oherwydd os yw un yn cynyddu, mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risg Grantiau –** Dyma risgiau sy'n gysylltiedig â nifer fawr o grantiau penodol a ddyfernir gan LIC, neu gyrff eraill, ac maent yn darparu dros £25m o gyllid ychwanegol. Dengys y setliad terfynol y bydd y rhan fwyaf o'r grantiau gan LIC yn aros ar lefel 2024/25, neu byddant yn cynyddu ychydig ar lefel Cymru gyfan. Nid yw cyfanswm yr holl gyllid grant penodol ar gyfer Ynys Môn yn eglur. Er mai'r ymateb cyntaf yw dweud bod rhaid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd pan fydd grant yn dod i ben, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd hyn yn bosib pan fydd telerau contractau'n golygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r incwm, neu gallai olygu talu costau diswyddo nad ydynt yn cael eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r Cyngor yn penderfynu bod rhaid parhau â'r gwariant gan fod y gweithgaredd a gyllidir o bwys mawr er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn meddu ar y wybodaeth orau ar gyfer bob grant, ond ni ellir diystyru newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn gyfan gwbl.

- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd a thaliadau, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio cynnydd o hyd at 3%. Os yw elastigedd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gallai hynny olygu bod cyllidebau net yn gorwario. Gallai'r argyfwng costau byw gael effaith ar yr incwm a gynhyrchir gan wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, oherwydd gallai defnyddwyr ddewis gostwng eu gwariant ar y gwasanaethau hyn nad ydynt yn hanfodol. Bydd angen monitro'r cyllideb net yn ofalus ac, os bydd rhaid, cwtogi gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm.

- **Risg yn gysylltiedig â'r Galw –** Gall nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagdybio rhai a'u cynnwys wrth osod y gyllideb, e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn anoddach eu darogan a gall cynnydd bychan mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â lefelau presennol, a bydd y balansau cyffredinol, neu'r cronfeydd clustnodedig mewn rhai achosion, yn cwrdd â chynnydd yn y galw. Mae cyllideb 2025/26 yn seiliedig ar y galw presennol am wasanaethau ym maes gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd, er bod risg y gallai'r galw barhau i gynyddu yn 2025/26 a bod y cynnydd yn uwch na'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Byddai hyn yn golygu fod y gwasanaethau hynny sy'n cael eu heffeithio yn gorwario a byddai'n rhaid cyllido'r gorwariant o arian wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.

- **Risg Optimistiaeth –** Yn y gorffennol, y risg mwyaf o dan yr amgylchiadau presennol, mae'n debyg, yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion yn rhy optimistaidd ynglŷn â'r arbedion a wneir, neu na fydd y galw am wasanaethau, a gofal cymdeithasol yn benodol, yn cynyddu'n sylweddol. Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys dros £0.7m o arbedion y bydd rhaid eu cyflawni. Os na fydd y targed arbedion yn cael ei gyflawni, bydd yn arwain at orwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26 a byddai'r gorwariant hwnnw'n cael ei gyllido o arian wrth gefn y Cyngor.

- **Y risg o fod yn rhy ofalus –** Mae'r risg hwn yn cyferbynnu â'r risg optimistiaeth: y perygl ein bod yn rhy ofalus wrth lunio ein cyllidebau a'u bod, felly'n uwch na'r gofyn, a byddai hynny'n arwain at osod y Dreth Gyngor sy'n uwch na'r gofyn, rhywbeth y mae Aelodau'n awyddus ei osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses o osod y gyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd ei angen gan bob gwasanaeth, yn seiliedig ar y ffactorau perthnasol fel y maent ar hyn o bryd.

- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Pan osodir sylfaen y dreth, cydnabyddir y gall nifer y tai gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, oherwydd hynny, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sy'n cael eu cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor petai'r niferoedd yn gostwng yn sylweddol. Er hynny, dylid nodi bod nifer y tai gwag a ddefnyddiwyd i gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 431 eiddo ym mis Hydref 2023 i 544 eiddo ym mis Hydref 2024. Roedd nifer yr ail gartrefi, sef 2,443, wedi aros yn gyson. Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar nifer yr ail gartrefi, ac mae'r niferoedd wedi cynyddu ar ddechrau 2025 wrth i'r Swyddfa Brisio drosglwyddo eiddo hunanarlwyo o'r gofrestr Trethi Annomestig yn ôl i'r gofrestr Dreth Gyngor, a hynny oherwydd nad yw'r eiddo wedi cael ei osod am ddigon o nosweithiau i gwrdd â gofynion y trothwy uwch. Mae risg sylweddol y gallai eiddo ddychwelyd i'r gofrestr Trethi Annomestig yn 2025/26 wrth i berchnogion gyflwyno apeliadau llwyddiannus yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, neu eu bod bellach yn gosod yr eiddo am y nifer gofynnol o nosweithiau.

  Dyluniwyd y premiwm i annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo, ond gallai hefyd annog mwy o berchnogion i beidio â thalu neu osgoi talu trwy drosglwyddo i drethi busnes, neu ddefnyddio dulliau eraill i osgoi talu. I linau'r risg, cyflogir staff ychwanegol i adnabod achosion o osgoi talu trethi ac, yn sgil hynny, sicrhau fod llai o bremiwm yn cael ei golli. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfan o'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol yn yr incwm yn arwain at gwtogi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau hyn yn y dyfodol.

**Incwm y Dreth Gyngor –** Mae incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sail y dreth ym mis Tachwedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sail y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a disgowntiau person sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y swm gwirioneddol a gesglir a'r gyllideb.

Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar raddfa gasglu'r Cyngor hefyd, wrth i fwy o deuluoedd wynebu problemau ariannol oherwydd bod prisiau'n codi. Gallai'r cynnydd arfaethedig yn lefel y Dreth Gyngor hefyd effeithio ar y cyfraddau casglu. Gallai hyn arwain at golled ariannol yn 2025/26, neu yn y dyfodol, pan fydd rhaid, yn y pendraw, ddileu dyledion nad oes modd eu casglu.

**6.4.** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod, a'r camau lliniaru, barn y Swyddog Adran 151 yw bod y cyllidebau'n gadarn ac yn gyraeddadwy, ac mae lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig presennol y Cyngor yn ddigon i liniaru'r risgiau a nodwyd.

## 7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

**7.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ynglŷn â lefelau incwm a gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ddieithriad, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o risgiau ariannol, a chyfeirir atynt ym mharagraff 5 uchod.

**7.2.** Mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 adolygu unrhyw gyllidebau wrth gefn neu gronfeydd wrth gefn yn eu cyfanrwydd, ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y tymor canol, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen i ddefnyddio adnoddau untro.

**7.3.** Cymerir safbwynt cadarn ar reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar yr adeg hon. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cyllid untro yn ddigonol er mwyn cyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol.

**7.4.** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiad uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosib. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, a dylid gwneud arbedion yn raddol ac mewn ffordd strwythuredig yn y blynyddoedd nesaf. Mae rhywfaint o risg bob amser hefyd y ceir gwariant neu orwariant annisgwyl oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigon i ymdopi â'r pwysau hwn.

**7.5.** Ar 1 Ebrill 2024, roedd gan y Cyngor £11.18m yn ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol (ar ôl caniatáu am y £4.425m a ddefnyddiwyd i gydbwyso cyllideb 2024/25), ac mae hyn yn cyfateb i 6.1% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2024/25, neu 9.1% o beidio â chynnwys y gyllideb sy'n cael ei datganoledig ysgolion. Neilltuwyd £0.6m pellach yn ystod y flwyddyn, ac mae £2.58m o gyllid grant ychwanegol gan LIC wedi cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn. Mae'r amcangyfrif diwygiedig o'r balans, felly, yn £13.16m, neu 7.1% o gyllideb refeniw net 2024/25.

**7.6.** Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25, roedd gan ysgolion falansau gwerth £5.577m, ond mae disgwyl iddynt ostwng i £3.410m erbyn diwedd 2024/25. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r rhan fwyaf o'u balansau i gyllido cyllideb 2025/26.

**7.7.** Mater i'r Cyngor ei benderfynu yw lefel y balansau cyffredinol, yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mae barn yn amrywio ynglŷn â p'un a ddylai'r gyllideb refeniw net eithrio'r gyllideb ddatganoledig ysgolion, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i gwrdd â chostau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2025/26.

**7.8.** Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2025/26 os na fydd digon o gyllid yn y gyllideb refeniw arfaethedig i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn 2025/26.

## 8. Y DRETH GYNGOR

**8.1.** Yn 2024/25, roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D y Cyngor yn £1,572.30, yr 16[eg] o'r 22 Awdurdod yng Nghymru, ac mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,665. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Cymhariaeth o Daliadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D 2024/25 £ | Swm Uwch / Is nag Ynys Môn £ | Canran Uwch / Is nag Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,572 | | |
| Gwynedd | 1,755 | + 183 | + 11.7% |
| Conwy | 1,733 | + 161 | + 10.3% |
| Sir Ddinbych | 1,679 | + 107 | + 6.8% |
| Sir y Fflint | 1,658 | + 86 | + 5.5% |
| Wrecsam | 1,598 | + 26 | + 1.7% |

**8.2.** Y gyllideb Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor a'r premiwm) yw £52.63m. Felly, mae bob 1% o gynnydd yn cynhyrchu £526k o incwm ychwanegol (llai y cynnydd angenrheidiol i'r gyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor).

**8.3.** Ar ôl ystyried ffigwr y setliad terfynol, sef £135.881m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £195.511m (gweler Atodiad 2), a defnyddio £2.000m o arian wrth gefn, byddai angen £57.629m o gyllid Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai angen cynnydd o 9.50% yn y Dreth Gyngor, gan olygu fod y tâl ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,721.70, sef cynnydd o £149.40, neu £2.87 yr wythnos.

## 9. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**9.1.** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

**9.2.** Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 10. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**10.1.** Fel y nodwyd ym mharagraff 1, mae'r sefyllfa economaidd a chostau staffio wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ym mis Medi 2024.

**10.2.** Y prif faes sy'n creu ansicrwydd o ran y CATC yn y dyfodol yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn ffactor sylweddol hefyd.

**10.3.** Mae'r CATC a ddiweddarwyd ar gyfer 2026/27 a 2027/28 i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 a 2027/28**

| | 2026/27<br>£'m | 2027/28<br>£'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 195.511 | 201.523 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 6.012 | 5.347 |
| Arbedion a Ddygwyd Ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 0.000 | (2.415) |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **201.523** | **204.455** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (gan dybio cynnydd o 2.0% yn 2026/27 a 2027/28) | 138.598 | 141.370 |
| Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2026/27 a 4% yn 2027/28) | 60.510 | 62.930 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **199.108** | **204.300** |
| | | |
| **Gofynion Cyllido Ychwanegol / Arbedion Gofynnol** | **2.415** | **0.155** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon | 2.0% | 3.0% |
| Dyfarniadau Cyflog - Athrawon | 2.0% | 3.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 2.0% | 2.0% |

Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a gallent newid wrth i ni symud tuag at 2026/27, ond dengys y cynllun y bydd angen torri gwariant y gyllideb refeniw net yn sylweddol yn 2025/26, a bydd angen cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor hefyd. Gellir gwrthbwyso hyn yn rhannol trwy ddefnyddio mwy o arian wrth gefn ond, unwaith eto, nid yw hyn ond yn gohirio'r angen i dorri'r gyllideb, a byddai'n rhaid ei thorri yn 2027/28.

**10.4.** Mae sefyllfa cyllid cyfalaf hefyd yn cael effaith ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol, gan nad yw lefel bresennol y cyllid yn ddigon i gynnal adeiladau a ffyrdd y Cyngor i'r safon bresennol a buddsoddi mewn cerbydau a chaledwedd TG newydd. Bydd diffyg cyllid cyfalaf yn golygu bod costau trwsio a chynnal a chadw holl asedau'r Cyngor yn cynyddu wrth i'w hoes ddefnyddiol gael ei ymestyn. Bydd rhaid ystyried buddsoddi a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwasanaethau, yn ogystal â lleihau'r costau ychwanegol y bydd rhaid i'r gyllideb refeniw eu hysgwyddo yn y dyfodol.

**10.5.** Mae'r sefyllfa yn gwella yn 2027/28, gyda'r disgwyliad y bydd chwyddiant yn gostwng i 2%, sef targed Banc Lloegr, a bydd y cyllid gan LlC yn cynyddu ar yr un lefel â chwyddiant. Y ffactor anhysbys fydd y galw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd, a gallent roi pwysau sylweddol ar gyllidebau os byddant yn codi. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw'n effeithio ar y rhagolygon a ddangosir yn Nhabl 3.

**10.6.** Mae'r cynllun a ddangosir yn Nhabl 3 at ddibenion dangosol yn unig ac mae'n seiliedig ar y dybiaeth bod y gyllideb refeniw net ar gyfer 2025/26 yn cynyddu yn unol â'r swm ychwanegol a dderbyniwyd yn y setliad terfynol. Fodd bynnag, nodir y gall y Pwyllgor Gwaith ddewis gosod cyllideb refeniw net is a chynnydd is yn y Dreth Gyngor. Cyflwynir CATC wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2026.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy a'i bod yn adlewyrchu'r galwadau a wynebir gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai parhad yr argyfwng costau byw yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Nid yw'r sefyllfa ariannol a wynebir gan y Cyngor yn unigryw i Fôn, ac mae'r 22 gyngor arall yng Nghymru'n wynebu'r un sefyllfa, yn ogystal â mwyafrif helaeth o gynghorau yn Lloegr.

**11.2.** Mae'r setliad i lywodraeth leol yn uwch na'r rhagolygon gwreiddiol cyn cyhoeddi cyllideb y DU ym mis Hydref 2024 ac, er bod cyflwyno llawr yn y setliad i'w groesawu, nid yw'r cynnydd yn ddigon i gwrdd â chynnydd mewn costau sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog, y newid yn yr yswiriant gwladol, chwyddiant a mwy o alw am wasanaethau. Fel y rhagwelwyd, yr unig ddewis i'r Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys, wrth gynnal gwasanaethau a darparu ar gyfer y galw uwch, yw torri'r gyllideb, cynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio lefel gyfyngedig o arian wrth gefn.

**11.3.** Mae sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gymharol gryf, er bod lefel y balansau a'r cronfeydd wrth gefn glustnodedig wedi lleihau yn ystod 2024/25 ac, er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2025/26 yn strategaeth cymharol ddiogel, nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir. Mae ychydig o sgôp i ddefnyddio arian wrth gefn eto i gydbwyso'r gyllideb yn 2026/27 heb wanhau sefyllfa ariannol y Cyngor.

**11.4.** Gallai'r sefyllfa wella yn 2026/27 ond mae hyn yn ddibynnol iawn ar dwf yn yr economi, a thrwy hynny gynyddu derbyniadau treth, yn ogystal â gostyngiad yn y cyfraddau llog a chwyddiant isel, gan sicrhau fod cyllid gan y llywodraeth yn ddigon i gwrdd â chynnydd mewn costau o leiaf. Y galw am wasanaethau yw'r elfen bwysig arall ac, os yw'r galw'n dechrau codi eto, bydd yn rhoi pwysau unwaith eto ar gyllidebau, gan olygu bod rhaid torri gwasanaethau neu bydd angen cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor.

**11.5.** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a chyflawni'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu.
- Defnyddio cyfuniad o dorri'r gyllideb, defnyddio arian wrth gefn a chynyddu'r Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys.
- Gosod lefel Dreth Gyngor sy'n cymharu ag asesiad LIC o lefel Dreth Gyngor Ynys Môn, ac sy'n cyd-fynd â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran maint a math.

## 12. ARGYMHELLION

**12.1.** Penderfynu sut i ddyrannu'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd a chytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor.

## Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL AR GYFER 2025/26 FESUL GWASANAETH

| | Y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2025/26 £'m |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 71.135 |
| Gwasanaethau Oedolion | 43.048 |
| Gwasanaethau Plant | 17.556 |
| Gwasanaethau Tai | 2.037 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 20.663 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 6.077 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 8.109 |
| Adnoddau | 4.225 |
| Busnes y Cyngor | 2.213 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.823 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **175.886** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2.238 |
| Ailgodi tâl ar y CRT | (0.840) |
| Cefnogaeth ar gyfer Cynlluniau Cymorth i Brynu Tai Lleol | 1.000 |
| Ardollau | 5.277 |
| Cyllido Cyfalaf | 4.637 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 0.110 |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol | 0.106 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 7.416 |
| Grant Yswiriant Gwladol | (2.000) |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Ddyrannwyd** | **193.830** |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1.404 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2025/26** | **195.234** |
| **Cyllidir Gan** | |
| Grant Cynnal Refeniw | 110.785 |
| Trethi Annomestig | 25.097 |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | 57.629 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | 2.000 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **195.511** |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gyllideb a'r Cyllid – i'w ddyranu gan y Pwyllgor Gwaith** | **0.277** |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Cyllideb Y Cyngor 2025 / 2026

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## 1. Cyflwyniad

Agorwyd yr ymgynghoriad o 22 Ionawr 2025 tan 7 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor a chafodd ei hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd hefyd gopïau caled o'r arolwg mewn adeiladau cyhoeddus ledled Môn

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu adborth gan drigolion Ynys Môn ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/26


Derbyniwyd cyfanswm o 927 ymateb wedi'u cwblhau'n llawn, gan gynnwys;-

- 870 arolwg wedi'u cwblhau ar-lein;
- 57 arolwg wedi'u cwblhau ar gopi caled.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganlyniadau arolwg yr ymgynghoriad a'r prif themâu sydd wedi'u hadnabod o'r adborth.


## 2. Crynodeb o'r Canlyniadau

### 2.1.1 Roedd cwestiwn 1 yn gofyn - Hoffem glywed safbwyntiau pobl am y cymunedau maent yn byw ynddynt. Nodwch a ydych yn llenwi'r holiadur hwn:-




### 2.1.2 Gofynnodd Cwestiwn 2 am y cod post ymatebwyr. Mae'r rhain wedi'u mapio ac mae'r canlyniadau ynghlwm fel Atodiad 1.

### 2.1.3 Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn – Grŵp Oedran Ymatebwyr



**2.1.3. Roedd cwestiwn 4 yn gofyn - Pa wasanaethau sydd fwyaf pwysig i chi?**

Mae'r canlyniadau'n dangos mai'r pum brif flaenoriaeth yw (gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 5):-

| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Casglu Gwastraff, Gwaredu ac Ailgylchu – Cyllideb £8.3m | 69.6% | 637 |
| Ffyrdd ac Isadeiledd – Cyllideb £8.3m | 68.1% | 623 |
| Addysg ac Ysgolion – Cyllideb £66.3m | 58.1% | 532 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus – Cyllideb £53.2m | 47.0% | 430 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub – Cyllideb £4.9m | 42.4% | 388 |


Y pum blaenoriaeth isaf yw:-

| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Archifau ac Amgueddfeydd – Cyllideb £0.6m | 4.3% | 39 |
| Cyngor ar Dai a Chymorth Llesiant – Cyllideb £0.8m | 8.7% | 80 |
| Llyfrgelloedd – Cyllideb £1m | 10.6% | 97 |
| Gwasanaethau Ieuenctid – Cyllideb £0.5m | 12.1% | 111 |
| Atal Digartrefedd – Cyllideb £0.8m | 13.4% | 123 |

**2.1.4 Roedd cwestiwn 5 yn gofyn - Mae strategaeth y gyllideb y Cyngor yn ceisio, diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adfer costau gwasanaethau drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, a pharhau i fuddsoddi, lle bo'n bosibl, er mwyn moderneiddio a thrawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau.**

**Ydych chi'n cytuno gyda'r nodau hyn?**


Roedd 52% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.



**2.1.5. Roedd cwestiwn 6 yn gofyn - Mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2025/26 yn caniatáu buddsoddiad parhaus sylweddol yn y cyllidebau gofal cymdeithasol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau.**

**Ydych chi'n cytuno â hyn?**


Roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.




**2.1.6. Roedd cwestiwn 7 yn gofyn - Mae cynnig y gyllideb arfaethedigyn caniatáu cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd a thaliadau dewisol.**

**A fyddech chi'n barod i dalu mwy i ddiogelu gwasanaeth rhag toriadau yn y gyllideb?**

Roedd 20% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno, 64% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf



**2.1.7. Roedd cwestiwn 8 yn gofyn – Ar gyfer pa wasanaeth fyddech chi'n fodlon talu mwy ar ei gyfer? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**


| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | 46.1% | 268 |
| Gwasanaethau Casglu Gwastraff (gan gynnwys gwastraff gardd gwyrdd) | 40.1% | 233 |
| Ffioedd Lansio Cerbydau Dŵr Personol | 38.7% | 225 |
| Mynediad i Amgueddfeydd | 36.3% | 211 |
| Prydau Bwyd Ysgolion | 31.8% | 185 |
| Ffioedd Rheoli Plâ | 31.7% | 184 |

Roedd gan y cwestiwn hwn hefyd adran testun rhydd, gan ofyn i ymatebwyr pa wasanaethau eraill y byddent yn talu mwy amdanynt. Darparodd 262 o sylwadau ond, yn anffodus, camddeallodd nifer sylweddol o ymatebwyr y cwestiwn a nododd wasanaethau y dylai'r Cyngor fuddsoddi ynddynt, nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cynnwys gan ffioedd a thaliadau, neu a wnaed sylwadau fel "rydym yn talu gormod yn y Dreth Gyngor" neu wedi gwneud sylwadau cyffredinol am y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor. O'r rhai a nododd yn glir a oeddent yn fodlon talu mwy drwy ffioedd a thaliadau, gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Dim un (134) – dywedodd yr ymatebwyr eu bod "eisoes yn talu digon o dreth gyngor";
- Meysydd parcio a phriffyrdd (6) – awgrymodd ymatebwyr gynnydd mewn ffioedd parcio a gorfodi parcio, yn ogystal â gwelliannau i wasanaethau'r priffyrdd;
- Cymuned, gwasanaethau ymwelwyr (cyfleusterau cyhoeddus, ffioedd morwrol ac ati) (8);
- Addysg (1) – awgrymodd ymatebwr dalu mwy am ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prydau bwyd, clybiau ysgol a theithiau ysgol;
- Llyfrgelloedd a Diwylliant (5) – ymatebwr sy'n fodlon talu i ymweld ag Oriel Môn a thalu ffioedd hwyr ar lyfrau;
- Cynllunio a'r Amgylchedd (2) – ymatebwr sy'n fodlon talu mwy am ffioedd cynllunio, gan gynnwys rheoli adeiladau, ac unrhyw wasanaethau sy'n gysylltiedig â gwella'r amgylchedd.;
- Gweithgareddau Hamdden (2) – ymatebwyr sy'n fodlon talu mwy am aelodaeth canolfannau hamdden.

**2.1.8. Roedd cwestiwn 9 yn gofyn – Mae'r cyllideb arfaethedigyn caniatáu defnyddio £1m o'r incwm a gynhyrchir o godi premiwm y Dreth Cyngor ar gartrefi gwag ac ail gartrefi i ddarparu grantiau a benthyciadau i brynwyr tro cyntaf. A ydych yn cytuno â'r defnydd arfaethedig o'r cyllid hwn a lefel y cyllid?**

Roedd 54% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno, 34% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf





**2.1.9. Roedd cwestiwn 10 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynigion i wneud arbedion sylweddol?**

| Dewis Ateb | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Gwella dulliau bilio a chasglu ar gyfer incwm morwrol a chynyddu rhai ffioedd uwchlaw chwyddiant: Arbediad Posib £30,000 | 77.3% | 22.7% |
| Lleihau cyfanswm y diwrnodau mae'r canolfannau ailgylchu ar agor o 10 diwrnod yr wythnos i 8 diwrnod yr wythnos (Penhesgyn dydd Mercher i ddydd Sul, Gwalchmai ddydd Sul i ddydd Mawrth): Arbediad Posib £60,000 | 53.7% | 46.3% |
| Cynyddu ffioedd a thaliadau Priffyrdd yn uwch na'r lefel chwyddiant: Arbediad Posib £60,000 | 40.8% | 59.2% |
| Lleihau cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau penodol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol neu lle gall y Cyngor reoli lefel y gwariant (dodrefn, offer swyddfa, taliadau cynhaliaeth i staff, mynychu cynadleddau, hysbysebu allanol anstatudol): Arbediad Posib £175,000 | 91.9% | 8.1% |
| Moderneiddio darpariaeth gwasanaethau dydd i gleientiaid ag anableddau corfforol a dysgu: Arbediad Posib £177,000 | 73.7% | 26.3% |

**2.1.10. Roedd cwestiwn 11 yn gofyn - A ydych yn cytuno â'r lefel arfaethedig o gynnydd yn y Dreth Cyngor o 8.95% (ynghyd â 0.65% i dalu am ardoll tân)?**

**Byddai cynnydd o 9.5% yn cynyddu cyllid y Cyngor gan £5.0 miliwn.**

Roedd 59% yn anghytuno'n gryf ac 22% ychwanegol yn anghutyno.




**2.1.11. Roedd cwestiwn 12 yn gofyn – Faint o gynnydd y dylid ei gyflwyno i'r Dreth Gyngor? (Byddai cynnydd o 9.5% yn cynyddu cyllid y Cyngor gan £5.0 miliwn)**

| Dewis Ateb | Ymateb % | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Dim cynnydd – fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth £5.0m | 36.4% | 271 |
| Cynnydd rhwng 0% a 3% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £3.4m a £5.0m | 30.4% | 226 |
| Cynnydd rhwng 3% a 5% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £2.4m a £3.4m | 26.6% | 198 |
| Cynnydd rhwng 5% a 7.5% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £1.0m a £2.4m | 6.2% | 46 |
| Cynnydd rhwng 7.5% a 9% - fyddai'n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £0.3m a £1.0m | 0.4% | 3 |

**2.1.12. Roedd cwestiwn 13 yn gofyn – Sut fyddech chi'n adfer y diffyg cyllid a nodwyd yn y cwestiwn blaenorol?**

| Dewis Ateb | Ymateb % | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Opsiwn 5: Dim toriad yng nghyllidebau'r gwasanaethau. Cyllido'r cyfan gan ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn y Cyngor. | 36.4% | 269 |
| Opsiwn 4: Rhai toriadau i gyllidebau gwasanaethau. Cyllido'r mwyafrif drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | 26.0% | 192 |
| Opsiwn 3: Cyllido 50% gyda thoriad i gyllidebau gwasanaethau. Cyllido 50% drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | 21.7% | 160 |
| Opsiwn 2: Mwyafrif yn doriad i gyllidebau'r gwasanaethau. Rhywfaint o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor | 9.6% | 71 |
| Opsiwn 1: Pob un wedi'i gyllido gan doriad mewn cyllidebau gwasanaethau. Dim defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor | 6.2% | 46 |

**2.1.13. Roedd cwestiwn 14 yn gofyn - Cyllidebau pa wasanaethau fyddech chi'n fodlon eu lleihau? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**

| Dewis Ateb | Ymateb % | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Archifau ac Amgueddfeydd | 61.2% | 511 |
| Twristiaeth a Morwro | 49.6% | 414 |
| LLyfrgelloedd | 45.7% | 382 |
| Gwarchod y Cyhoedd, Cynllunio, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd | 36.2% | 302 |
| Cyngor ar Dai a Chymorth Llesiant | 35.9% | 300 |
| Rheoli'r Amgylchedd a Chefn Gwlad | 30.5% | 255 |
| Atal Digartrefedd | 26.3% | 220 |
| Canolfannau Hamdden | 26.3% | 220 |
| Glanhau Strydoedd a Traethau | 24.9% | 208 |
| Datblygu Economiadd | 24.4% | 204 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 18.0% | 150 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus | 13.1% | 109 |
| Addysg ac Ysgolion | 11.9% | 99 |
| Casglu a Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu | 10.2% | 85 |
| Gwasanaethau Tân | 9.3% | 78 |
| Ffyrdd ac Isadeiledd | 6.2% | 52 |

2.1.14 Darparwyd blwch testun rhydd a oedd yn caniatáu i ymatebwyr wneud sylw ychwanegol os oeddent yn dymuno. Derbyniwyd 465 o sylwadau unigol, a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau. Roedd rhai o'r sylwadau yn gadarnhaol ond, yn y mwyafrif o achosion, manteisiodd yr ymatebydd ar y cyfle i fynegi eu hanfodlonrwydd neu i wneud awgrymiadau ynghylch sut y dylai'r Cyngor geisio lleihau costau. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Lleihau lefelau staffio;
- Rhewi neu leihau tâl staff, yn enwedig tâl uwch reolwyr;
- Tynnu'n ôl o'r cynllun pensiwn presennol;
- Lleihau nifer y Cynghorwyr neu eu lwfansau;
- Cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb;
- Lleihau gwastraff ac aneffeithlonrwydd;
- Stopio staff rhag gweithio gartref;
- Caniatáu i fwy o staff weithio gartref a lleihau / cau swyddfeydd y Cyngor;
- Rhannu gwasanaethau cefnogaeth y Cyngor gyda chynghorau eraill;
- Buddsoddi mewn adeiladau’r Cyngor e.e. Canolfannau Hamdden;
- Dadlau'r achos i Lywodraeth Cymru bod angen cyllid ychwanegol i gynnal gwasanaethau hanfodol.

**ATODIAD 1**

## YMATEBION YN OL ARDAL

